



Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 ☎ 01443 219596
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

Ebrill, 2014

Annwyl Riant,

Noson Wybodaeth i rieni 7, 8 a 9 – y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Fel rydych yn gwybod, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r system addysg yng Nghymru yn ddiweddar.

Un o'r newidiadau mwyaf yw gweithredu yn statudol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r Fframwaith yn nodi canlyniadau disgwyliedig blynyddol clir ym maes llythrennedd a rhifedd **i bob dysgwr rhwng 5 a 14 oed**. Ceir disgrifiadau manwl o beth mae disgwyl i blentyn allu ei wneud ar flwyddyn arbennig yn ei addysg gynradd ac uwchradd, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9.

Bydd ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r Fframwaith i sicrhau bod y broses o addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd wedi'i hymgorffori ar draws y cwricwlwm yn hytrach na'i bod yn canolbwyntio ar wersi Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yn unig. Y nod gan Lywodraeth Cymru yw codi safonau llythrennedd a rhifedd yn genedlaethol.

Disgwylir i ysgolion adrodd yn flynyddol i rieni a gofalwyr ar gynnydd a chryfderau disgyblion unigol ac ar y meysydd y mae angen rhagor o gymorth arnynt o ran llythrennedd a rhifedd fel rhan o'r adroddiad blynyddol. Bydd yr adroddiadau'n cychwyn o Fedi 2014.

Am ragor o wybodaeth fe'ch gwahoddir chi i noson rieni ar **ddydd Mercher Ebrill 30^{ain} am 6.30yh** yn y neuadd chwaraeon. Bydd Arweinwyr Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar gael i drafod ymhellach.

Mae'r Fframwaith ar gael hefyd wrth ymweld â:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy>

Yr eiddoch yn gywir

Yasmin Timothy
Arweinydd Rhifedd

Sian Roberts
Arweinydd Llythrennedd

✂-----

Enw'r disgybl.....

Cadarnhaf y gallai fynychu'r Noson Wybodaeth ar 30.04.14

Ni allaf fynychu'r Noson Wybodaeth ar 30.04.14

(Rhowch tic fel yn briodol os gwelwch yn dda)

Llofnod :.....